

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

1af Gorffennaf 2023

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD nesaf CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 12fed o Orffennaf am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol a gyfarfu ar yr 17eg o Fai 2023 – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.
 - b) Hysbysfyrddau/ byrddau gwybodaeth
 - c) Torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy 2023 – a chadarnhad fod arwyddion i'r contractwyr.
 - d) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy – nodi y diweddaraf

5. Materion Cynllunio/Trwyddedu Eiddo

Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (presennol) ar gyfer lleoli a defnyddio'r garafan fel llety anecs ar gyfer defnydd atodol i'r prif dy annedd – Llwyn Glas, Cwm Cewydd

(wedi ei ddsbarthu, ac ymatebwyd eisoes)

Ymgynghoriad – cais eiddo trwyddedu newydd – Red Bull Hardline Event.

(wedi ei ddsbarthu, ac ymatebwyd eisoes)

6.Materion Cyllid.

Talu cydnabyddiaeth clerics 3 mis cyntaf .

7.Gohebiaeth

- Cynllun Rhannu cartref Cyngor Gwynedd.
- Rhwydwaith cydraddoldeb sector gyhoeddus Gogledd Cymru – ymgynghoriad
- Cyfyngiadau 30mya yn newid I 20mya o'r 17eg o Fedi.

8. Unrhyw fater arall